# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37983, a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 9 Tachwedd 2004

**At Alun Ffred Jones:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y cwestiwn a ofynnwyd gennych ar y Gymraeg i'r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref.

'Iaith Pawb' yw'r cynllun gweithredu cyntaf erioed ar gyfer y Gymraeg ac mae wedi'i ategu gan gamau gweithredu ymarferol a £28 miliwn o arian ychwanegol i gefnogi'r Gymraeg. Nod y mesurau a amlinellir yn 'Iaith Pawb' yw gwireddu'r pum targed allweddol a nodir ar dudalen 11 o'r ddogfen. Er mwyn gwneud hynny, mae pob un o'r mentrau a'r pwyntiau gweithredu yn y ddogfen yn bwysig. Mae'r Gymraeg yn gyfrifoldeb i bawb ac mae'r cynllun yn adlewyrchu awydd Llywodraeth y Cynulliad i brif-ffrydio'r Gymraeg.

Fel dogfen organig, bydd 'Iaith Pawb' yn datblygu wrth i sefyllfaoedd newid. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, wrthi ar hyn o bryd yn datblygu dangosyddion i gasglu mwy o ddata am y Gymraeg. Bydd yr amrywiaeth ehangach hwn o ddata yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio datblygiad polisi ac i gloriannu ac adolygu effaith polisïau a rhaglenni.

Proses dymor hir yw diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg, ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i hymrwymo i droi amcanion 'Iaith Pawb' yn realiti ac mae cynnydd eisoes wedi'i wneud fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol cyntaf ar 'Iaith Pawb'.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ37983, a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 8 Tachwedd 2004

**At Lisa Francis:**

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r cwestiwn atodol a ofynnwyd gennych ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref ar becynnau croeso Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cafodd y pecynnau croeso eu cynhyrchu yn wreiddiol gan y mentrau iaith yng Ngwynedd, Conwy and Sir Ddinbych mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2001. Ailargraffwyd y pecynnau hyn yn 2003.

Yn dilyn ymchwil bellach a gwerthusiad annibynnol, penderfynwyd i addasu'r pecynnau, a chreu pecyn tebyg ar gyfer de-orllewin Cymru, yn ogystal â sefydlu gwefan genedlaethol.

Bydd y pecynnau newydd a'r wefan (www.symudigymru.com/movingtowales.com) ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn gynhwysfawr a bydd swyddog yn cael ei gyflogi i godi ymwybyddiaeth am y pecyn ac i'w gyflwyno i'r asiantau tai.

Mae'r pecynnau ar gyfer gogledd-orllewin Cymru wedi bod ar gael ers diwedd Hydref a bydd y pecyn am dde-orllewin Cymru ar gael yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Daeth y wefan yn weithredol ar 8 Tachwedd.